

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1/9/20

Cyfrwng: StarLeaf

Presennol: Y Cynghorwyr Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2139 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd; derbyniwyd ymddiheuriad gan Alwyn E Jones, a datganiadau o fuddiant gan Heledd Jones a Beryl Hughes Griffiths yn y materion cynllunio (eitem 2147 i /ii /iii. Datganodd Huw Antur ddiddordeb ym mater Llwybr Tegid (Eitem 2144 ix).

2140 Cofnodion: Cytunwyd fod Cofnodion y cyfarfod dros y we ar Orffennaf 7fed 2020 yn gywir.

2141 Materion y Clerc:

- i. StarLeaf – adroddwyd y prynwyd trwydded i ddefnyddio'r cyfrwng hwn am flwyddyn; mae'n galluogi rhannu dogfennau.
- ii. Cyfarfod Blynyddol – cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Blynyddol o flaen y cyfarfod arferol ym mis Hydref. Nid oes reidrwydd eleni i ddewis Cadeirydd ac is-gadeirydd o'r newydd, yn ôl cyngor Un Llais Cymru.
- iii. Gorchymyn Llywodraeth Cymru i gau'r ffordd yn Llanycil: derbyniwyd gwybodaeth y gwnaethpwyd y Gorchymyn hwn rhag ofn y byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud yn achosi i'r strwythur ddymchwel yn llwyr, ond eglurwyd mai annhebygol iawn yw y byddai hyn yn digwydd. Dywedodd y Clerc iddi ofyn am wneud peth gwaith tocio a rheoli llif ar ffordd Llanygwer rhag ofn y byddai galw am ddefnyddio'r ffordd honno.

2142 Adroddiad Cyngor Gwynedd - Dywedodd y Cyngorydd Alan Jones Evans fod "manhole" wrth y Llwyn angen sylw mwy manwl. Eglurodd y math o waith a fydd yn digwydd ar yr A494 wrth Lanycil. Dywedodd fod y gwaith o drwsio pontydd y Twrch yn ymyl y stesion wedi ei orffen. Mae'r cynlluniau ar gyfer trwsio'r bont wrth Tal Ardd mewn llaw. Mae pryder am y posibilrwydd o Ffos Dôl Tŷ'n Felin yn gorlifo a chreu difrod. Adroddodd iddo drafod a chael cyfarfod gyda gwahanol asiantaethau. Dywed yr Awdurdod Afonydd nad yw'r ffos yn gyfrifoldeb iddynt. Mae Cyngor Gwynedd yn chwilio'r dogfennau i weld a oes unrhyw ddogfen sy'n dangos cyfrifoldeb arnynt hwy dros y ffos ers ail wneud y bont yn 1973. Mae hefyd wedi trafod gydag Adran Llifogydd Cyngor Gwynedd sydd yn holi beth yw rôl Cyfoeth Naturiol Cymru ac os ydyw'r ffos yn rhan o'r IDD (Internal Drainage District). Nid oes hawl gan y Cyngor Cymuned i dalu am waith ar eiddo sydd ddim perthyn i'r Cyngor Cymuned. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei holl waith.

2143 Sylfeini: Cafwyd trafodaeth ar y sefyllfa bresennol ym Maes y Pandy: mae Cyngor Gwynedd yn dweud fod 11 o dai gweigion yn Llanuwchllyn; mae Cynefin wedi anfon yn

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn y datblygiad arfaethedig ym Maes y Pandy. Mae Sylfeini yn disgwyl ymateb gan Cynefin, a mynegwyd siom nad oes cyswllt wedi bod gyda'r Cyngor Cymuned chwaith. Mae'r Cyngor yn parhau i ddisgwyl am yr hyn a addawyd, megis ymateb i'r cais i wneud y gwaith mewn 4 gwedd, cynllun busnes a'r model ariannol o rannu'r datblygiad yn llai. Holwyd, os na chafwyd datganiadau o ddiddordeb, a ydy hynny'n golygu fod y cynllun yn syrthio'n gyfan gwbl. Mae'r sefyllfa bresennol yn y farchnad dai yn dangos bod angen bod yn wylidwrus rhag darparu mwy o lefydd byw nad oes eu hangen yn lleol. Cytunwyd i ofyn am adborth llawn gan Cynefin.

2144 Creu Cynllun Ardal (HA): Cafwyd trafodaeth ar anghenion yr ardal ar y groesffordd argyfyngus bresennol yn ein hanes, gyda newidiadau sylfaenol yn cynnwys gweithgareddau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus, yr economi, twristiaeth, lleoliad gwaith, y sefyllfa dai, ymateb i geisiadau cynllunio. Cytunwyd bod angen ymgysylltu gyda' thrigolion a rhoi cynllun byr ar bapur er mwyn cryfhau llais yr ardal wrth ei rannu gyda Chyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri ac yn y blaen. Byddai posib ymestyn hwn i ardal Partneriaeth Penllyn pe dymunid. Cytunwyd i ffurfio Panel i Lunio Cynllun Ardal yn cynnwys, Huw Antur, Branwen Haf, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Beryl Hughes Griffiths a'r Cyngorydd Alan Jones Evans, gan dynnu ar brofiad yr holl aelodau a'r gymuned ehangach.

2145 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddo: Karl Jones – cytunwyd i holi am brisiau ar gyfer paentio railings cefn y fynwent ac -oherwydd y tymor - i gytuno gyda'r Cadeirydd ar y ffordd ymlaen.
- ii. Diolchwyd i Huw Antur am sicrhau grant gwerth £10,000 i wneud y gwaith o uwchraddio'r toiledau. Mae Cynllun Uwchraddio'r Toiledau yn ei le ac ar ôl i'r gwaith gychwyn ni fydd hawl i neb fynd at y safle; mae angen rhoi arwydd ar y toiledau fod y gwaith yn cychwyn a'r toiledau ar gau; cytunodd y Clerc i anfon at Lloyds Coaches i roi gwybod iddynt. Cytunwyd i roi hawl gweithredu i Karl Jones yn ôl y galw.
- iii. Mabwysiadwyd y rhaglen lanhau a chytunwyd i gynnal is-bwyllgor cyfleusterau yn fuan.
- iv. Ciosg Cynllwyd a'r Lôn – cytunwyd i wrthwynebu cau ciosg Cynllwyd oherwydd diffyg signal ffôn yng Nghynllwyd.
- v. Ail baentio bedd Syr Ifan: mae'r mater yn cael sylw.
- vi. Y fynwent newydd: gosodwyd arwydd yn gofyn yn garedig i bobl beidio lluchio gwastraff wrth y porth nac unman arall yn y fynwent, ond mynd a gwastraff gartref, neu o leiaf ei roi yn y bin yn y maes parcio. Cytunwyd i ddatgloi giât y fynwent gan fod bygythiad camper-vans yn parcio yno wedi lleihau erbyn hyn.
- vii. Mynwent yr Eglwys: cafwyd trafodaeth ar eiddew yn tyfu dros yr yw a chytunodd y Cadeirydd i gael barn arbenigwyr o'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- viii. Wyneb Llwybr y Cei - bydd y Cadeirydd yn trafod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.
- ix. Llwybr Cŵn -gwir leoliad: cytunwyd i dynnu sylw Gwyn Evans, Swyddog Hawl Tramwy i sicrhau trywydd y Llwybr.
- x. Llwybr Tegid – Derbyniwyd diolch gan Bennaeth Glan-llyn i'r Cyngor am dalu am gynnal y Llwybr eleni; cytunwyd i drafod y mater cynnal y Llwybr y mis nesaf ar ôl derbyn papur gwybodaeth gan Huw Antur, gan y gallai fod goblygiadau wrth osod y Praesept. Mae angen trafodaeth ehangach hefyd ar ddyfodol a datblygiad y Llwybr.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

- xi. Pontnewydd Penantlliw: derbyniwyd cwynion pellach am gyflwr annerbyniol ardal y Bontnewydd a dywedodd Alan Jones Evans fod Cyngor Gwynedd yn y broses o weithredu ar y mater.

2146 Materion ariannol: Diolchwyd i Bethan Edwards am anfon ymlaen wybodaeth am y sefyllfa ariannol. Derbyniadau: Praesept. Taliadau: Clerc a CTHEM; cynnal llwybr £560; Starleaf £144 (cynnwys TAW). Taliadau Cyfrif y mynwentydd, yn cynnwys cynnal a chadw, torri gwair ac arwydd: £1200.

2147 Ceisiadau Cynllunio:

- i. NP5/71/89A Gosod to dros storfa tail sych Braich Ceunant, Llanuwchllyn. LL23 7SU - Cymeradwywyd
- ii. NP5/71/9B Gosod to dros storfa tail sych Nant y Barcud, Cynllwyd Uchaf, Bala. LL23 7DF - Cymeradwywyd
- iii. NP5/71/377E Adeiladu estyniad i adeilad amaethyddol presennol, Cwm Ffynnon, Nant y Barcud, Llanuwchllyn. LL23 7UL - Cymeradwywyd
- iv. NP5/71/473A Cottage Garn - derbyniwyd gwybodaeth a chytunodd y Clerc I ysgrifennu i fynegi'r dymuniad i gadw statws siop gan fod diddordeb lleol mewn cynnal busnes yno; deallir fod y cyfnod ymgynghorol yn parhau.

2148 Materion lleol y Cynghorwyr- dywedodd Huw P Roberts fod y ffos yn gorlifo ar waelod stryd Bryn Caled. Cafodd ei farcio gan y cyngor ddyddiau cyn i'r clwy' gau popeth i lawr. Cytunwyd i atgoffa'r adran berthnasol am y broblem.

Mynegwyd gofid am y sbwriel difrifol ar hyd a lled yr ardal ar ôl gwyliau'r haf.

Cytunwyd i fynegi gwerthfawrogiad o siopau'r Bala a Thafarn yr Eagles sydd wedi darparu gwasanaeth cloddiw i ardal Llanuwchllyn yn ystod y cyfnod diwethaf. Cytunwyd i anfon at y Cyfnod ac at Pethe Penllyn.

Biniau halen – cytunodd y Cynghorwyr i dynnu llun o gynnwys pob bin halen yn yr ardal er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf cyn y gaeaf am y sefyllfa.

2149 Gohebiaeth E-bostiwyd:

Un Llais Cymru – Ymgysylltiad Cymunedol, Arfer Gorau

Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant

Cyngor Cymuned Llanllyfni – Cais am gefnogaeth i'w cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd drefnu cyfarfod i drafod codi tâl ar gerddwyr yr Wyddfa – **cytunwyd** i ofyn am ymestyn y drafodaeth i gerddwyr ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn gyfan gwbl. **Cytunwyd** i ofyn am gyfyngiadau i feysydd parcio Y Felin, Llanywern a'r Bala

Cyfoeth Naturiol Cymru – lansiad ar-lein 18/9/20 am 11.00 y bore

Bwrdd Dŵr Cymru – adnewyddu Capel Coffa Celyn

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad ar Amcanion Gwelliant a Llesiant: cytunodd y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor

Cyfoeth Naturiol Cymru – ymgynghoriad ar goedwigaeth cytunodd y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor

2150 Partneriaeth Penllyn – adroddodd Huw Antur fod y cyfnod cloi wedi bod yn gyfle i orffen y gwaith uwchraddio adeilad Canolfan Henblas a bellach mae hyd at 15 o swyddfeydd ar gael yno.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 6/10/20 ar StarLeaf

Amser gorffen: 9.50pm